

Cyngor Tref Frenhinol Caernarfon

Cofnodion y Panel Cyllid a Staff, 22/10/19

Yn bresennol:

Y Cynghorwyr W.L.Davies (Cadeirydd), C. Larsen, W.T.Owen, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr E.R.Hughes, S.Sage

2. Datgan Buddiant Personol

W.T.Owen – eitem 4.iii ar y cofnodion. Gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth.

3. Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc)

(a) Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020

Nodwyd:

- (1) Bydd Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2020, yn effeithio ar amcangyfrifon blwyddyn ariannol 2020/21.
- (2) Bod Atodiad 5 yn yr adroddiad yn grynoded o'r dyfarniadau newydd a'r rhai diweddaraf ar gyfer eleni. Roedd hyn yn cynnwys y gall cynghorau tref a chymuned dalu iawndal am golled ariannol i bob un o'u haelodau, lle mae colled o'r fath wedi cael ei hysgwyddo mewn gwirionedd, o ganlyniad i fod yn bresennol i gyflawni dyletswyddau cymeradwy fel a ganlyn:
 - hyd at £55.00 am bob cyfnod nad yw'n fwy na 4 awr.
 - hyd at £111.00 am bob cyfnod sy'n fwy na 4 awr ond nad yw'n fwy na 24 awr.
- (3) Er mwyn ateb y gofyniad yn y Mesur i gyhoeddi'r adroddiad erbyn y 28ain o Chwefror 2020, rhaid i unrhyw sylwadau gael eu cyflwyno erbyn y 10fed o Ragfyr 2019.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

(b) Galwch Acw

Nododd y Clerc:

- (1) Bod gwaith angenrheidiol angen cael ei wneud ar adeilad Galwch Acw (tenantiaid 8 – 10 Stryd Bangor), a bod y cyfrifoldeb o ran ariannu yn disgyn ar y Cyngor Tref fel y landlord.

- (2) Bod y gwaith yn ymwneud â chael dŵr poeth i'r sinc, lleihau'r risg o Legionella drwy wneud gwaith ar y peipiau yn y selar, ac addasu'r toiled i'w wneud yn fwy addas ar gyfer yr anabl.
- (3) Gan fod y rhain yn ddatblygiadau diweddar a ddaeth i sylw'r Clerc yn ystod y dydd, nid oedd yn gallu rhoi unrhyw amcangyfrif o'r costau.

Penderfynwyd datgan y dylai'r Cyngor Tref, fel landlord, ariannu pa bynnag waith oedd yn angenrheidiol i'w gyflawni.

4. Ceisiadau Ariannol

Penderfynwyd ar y taliadau canlynol:

| Enw | Swm | Talu allan o |
|--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------|
| i) Papur Dre | £500 | Amcangyfrifon |
| ii)Ynys Blastig | £200 ond bod angen holi pam mai dim ond efo busnesau Stryd y Plas mae nhw'n gweithio | |
| iii)Canolfan Noddfa | Gohirio gwneud penderfyniad, a gofyn am esboniad o'r £161,000 yn y cyfrifon, ac a oes cynlluniau i'w wario | |
| iv)Theatr Bara Caws | £100 | Amcangyfrifon |
| v)Teulu Cadnant | £100 | |
| vi)Clwb Henoed Llys yr Eifl | £200, a gofyn i'r Clerc ymchwilio i faint o aelodau sydd mewn clybiau fel Teulu Cadnant a Chlwb yr Henoed Llys yr Eifl | Pot Rhoddion Nadolig |
| vii) Priya Evans- cais blaenorol ddaeth o flaen y Panel Cyllid, yn ei gyfarfod ar y 25ain o Fehefin 2019, gyda'r penderfyniad | Gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau. Os yw Pryia yn cystadlu ar lefel genedlaethol, dydlid rhoi £100 iddi. Os ddim, dylid trafod ymhellach. | |

| | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|
| <p>canlynol: "...gan nad ydi'r cais yn nodi cystadleuaeth penodol ar lefel cenedlaethol cytuno mewn egwyddor hyd at £100 os fydd cystadleuaeth rhyngwladol cyn Mis Mawrth (o pot eraill)</p> | | |
|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--|--|

5. E-Bost gan Rebecca Laming, Onecom

Cyflwynwyd – e-bost gan Rebecca Laming o gwmni Onecom yn cynnig rheoli bil ffôn y Cyngor, ac edrych ar y cytundenaau gorau ar ran y Cyngor.

Nodwyd fod y mater wedi ei roi gerbron y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 1af o Fedi, a penderfynwyd symud y mater i'r cyfarfod nesaf o'r Panel Cyllid.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc i ymchwilio o ran pa bryd mae'r cytundeb presennol yn dod i ben, beth fyddai'r goblygiadau i ddod allan ohoni, ac ystyried y costau ynghlwm â'r gwahanol opsiynau.

6. Cynigion parthed y Cytundeb Trydan

Yn sgîl penderfyniad y pwyllgor hwn yn ei gyfarfod diwethaf, cyflwynwyd e-bost gan gwmni Business Utility Renewals Ltd (BUR) yn amlinellu prisiau adnewyddu'r gontract trydan ar gyfer Adeilad yr Institiwt. Roedd y cwmni yn edrych ar wahanol brisiau ar y farchnad ac yn gwneud y gwaith o adnewyddu'r gontract ar ran y Cyngor.

Cyflwynwyd yn ogystal e-bost gan gwmni Utility Bidder.

Nodwyd bod y gontract bresennol yn dirwyn i ben ar y 5ed o Dachwedd.

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc gysylltu gyda cwmni BUR i gadarnhau y bydd y Cyngor Tref yn parhau gyda British Gas am flwyddyn arall, ond y bydd yn edrych ar wahanol opsiynau ymhen blwyddyn.

7. E-bost gan BT Enterprise Communications

Cyflwynwyd – e-bost gan BT yn datgan eu bod am ddechrau codi tâl am filiau papur, ac yn annog y Cyngor i newid i filiau di-bapur.

Penderfynwyd parhau efo biliau di-bapur.

8. Cronfeydd

Ystyriwyd – Cronfeydd y Cyngor yn dilyn y penderfyniad canlynol a wnaethpwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar y 1af o Hydref:

“Gofyn i'r Pwyllgor Cyllid ystyried Cronfeydd yn ei gyfarfod nesaf ar y 22 Hydref, gan ddarganfod faint o arian sy'n dderbyniol i gael wrth gefn, a chynllunio o fewn y ffiniau hynny.”

Nodwyd nad oedd yr Archwilydd Allanol yn hapus gyda cronfeydd wrth gefn y Cyngor o £243,887, sy'n 107% o gyfanswm y gwariant.

Gan nad oedd yr Amcangyfrifon Ariannol yn profi nad oedd y Cyngor Tref yn cadw llai na 12 mis o gostau rhedeg y cyngor wrth gefn, gofynnwyd i'r Clerc drefnu cyfarfod gyda'r Archwilydd Mewnol er mwyn cael mwy o eglurder.

Rhoddwyd esboniad cryno o beth oedd y gwahaniaeth rhwng cronfeydd a balansau, ac y gellid clustnodi arian i'w wario o dan benawdau cyllidol fel y liff, y Gofeb, Her Gwynedd, Adeilad yr Institiwt a llochesi bysus. Byddai hyn yn lleihau'r cronfeydd.

Yn ogystal, cafwyd trafodaeth fanwl ar y penawdau amrywiol, yn cynnwys y penawdau o dan Gwariant Awdurdodedig lle roedd newidiadau i'r gyllideb, sef Clwb Ieuencid (amcangyfrif 2020/21 yn £12,100 o'i gymharu â £5,500 yn 2019/20); Canolfan Noddfa (amcangyfrif 2020/21 yn £1,500 o'i gymharu â £0 yn 2019/20); a Parc Coed Helen (amcangyfrif 2020/21 yn £17,500 o'i gymharu â £0 yn 2019/20).

Penderfynwyd:

(1) Ar y diwygiadau canlynol:

Gweinyddiad

- **Clustnodi swm ar gyfer “Ffi Archwilio” a “Rheoli Cyfrifon” ar gyfer Amcangyfrifon 2020/21 gan fod gwariant wedi bod ar y penawdau hyn yn 2019/20.**

Adeilad yr Institiwt

- **Cynyddu Amcangyfrifon 2020/21 o dan y Pennawd “Atgyweirio / ail-adeiladu” o £10,000 i £20,000.**

Gwariant Dewisol (Adran 137)

- **Dim sylwadau.**

Gwariant Awdurdodedig

- **Gofynnwyd pam fod £10,000 wedi ei glustnodi tuag at “TCG” (CCTV) gan fod gwariant 2019/20 yn debygol o fod yn £6,710.**
- **Diddymu’r pennawd “Chwaraeon Ieuenctid”.**
- **Gofynnwyd pam roedd yr arian oedd wedi ei glustnodi ar gyfer “Goleuadau Nadolig” (£45,000) mor uchel.**
- **“Gwasanaethau Newydd” – ydi hwn yn dâl ychwanegol ar gyfer hel sbwriel, torri gwaith ac yn y blaen? Os ddim, mae’n bosib nad oes angen y pennawd.**
- **Y dylid cyfrannu swm tuag at “Eisteddfod 2021” (Y Cynghorydd I.C.Thomas yn ymatal).**

(2) Gofyn i’r Clerc drefnu cyfarfod gyda’r Archwilydd Mewnol er mwyn dadansoddi a chanfod y ffordd ymlaen o ran Amcangyfrifon 2020/21. Byddai’r Cyngor mewn gwell sefyllfa wedyn i ystyried y precept.

(3) Codi’r tâl am logi ystafelloedd cyfarfod yn Adeilad yr Institiwt o 5% bob blwyddyn, am gyfnod o 5 mlynedd, gan gychwyn ym mlwyddyn ariannol 2020/21.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.20 p.m.

Arwyddwyd _____

Dyddiad _____